

# Gair Duw

## Darllen: Luc 11:1

Mae'r ddau fyfyrddod blaenorol dan y teitl 'Gair Duw' wedi ymdrin yn benodol â'r Beibl. A phan feddyliwn ni am y Beibl, dyma'r geiriau ddaw yn syth i'r meddwl – 'Gair Duw'. Ond tybed ydi Duw wedi siarad â ni unwaith ac am byth yn nhudalennau'r Beibl, ac wedi anghofio amdanom y dyddiau hyn? Na, mae Duw yn dal i lefaru – dyna'r gwirionedd Cristionogol. Ym mha ddull a pha fodd? Dowch i ni ystyried gweddi yn ein bywyd ysbrydol.

Y peth cyntaf i'w ystyried wrth weddio yw mai perthynas rhwng dyn a Duw yw gweddi. Anghofiwn hyn yn aml pan fyddwn yn mynd ati i raeadr geiriau ger ei fron, gan fynegi'n dyheadau a'n dymuniadau yn huawdl ac ymffrostio'n aml yn ein gweithredoedd ein hunain. Mae'n rhaid rhoi lle canolog i Dduw ym mhob gweddi. Man cychwyn pob gweddi yw ymdawelu, cyn meiddio dweud gair. Nid yn unig creu distawrwydd o'n cwmpas, ond hefyd oddi mewn. Ymlonyddu a thawelu'r meddwl a'r holl emosïynau sydd yn ein tynnu brith draphlith i bob cyfeiriad. Puro'r dychymyg er mwyn canolbwyntio'n ddisgwylgar ar Dduw. Gellir gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar ambell adnod o'r Beibl, 'Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw' (Salm 46:10), neu adnod gyntaf y Salm adnabyddus, 'Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisïau arnaf' (Salm 23:1). Gellir ymdawelu hefyd trwy gynnu cannwyll a myfyrio ar y goleuni, neu edrych ar ddarlun, ond y perygl yw canolbwyntio ar y gwrthrych yn hytrach na chanolbwyntio'n dawel a disgwylgar ar Dduw. Cyn dweud dim, mae'n rhaid i ni geisio tiwnio i donfedd Duw a theimlo'i bresenoldeb fel mantell yn cau amdanom. Y cam nesaf yw ymroi i'w foli a'i ganmol, ac yma eto gellir defnyddio geiriau o'r Ysgrhythur, 'Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y Lluoedd; y mae'r holl ddaear yn llawn o'i ogoniant' (Eseia 6:3). Ac wrth i ni ei glodfori fel hyn byddwn yr un pryd yn ymdeimlo'n ddwfn â'n hannheilyngdod, a rhydd hynny gyfle i ni ymollwng a chydabod ein methiant. Bydd hynny'n rhoi cychwyn ar hunan ymchwil a cheisio

dod â'r llygredd sy'n llechu yng nghilfachau tywyll ein personoliaeth i'r amlwg – ymagor yn hollol onest gerbron Duw a chyffesu'r cyfan. Dim ond un peth sy'n dilyn wedyn, sef diolch iddo: diolch am gael dod i'w bresenoldeb; diolch am y cyfle i'w ganmol a'i glodfori; a diolch ei fod yn gwrando arnom yn dinoethi'n personoliaeth ger ei fron.

Mae'r cam nesaf yn allweddol. Beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthyn ni? Pa neges? Pa her sydd ganddo ar ein cyfer? Aros a disgwyl yn y distawrwydd yw'r cam nesaf. Aros yn ddisgwylgar. Mae'r elfen hon ar goll yn ein hoedfaon o Sul i Sul. Fedrwn ni ddim dygymod â chyfnodau o ddistawrwydd, a phan fyddwn yn arwain cynulleidfa i gyfnod distaw mae pobl yn anghyffyrddus ac yn dechrau gwingo. Dyma'r cyfnod y byddwn yn disgwyl i Air Duw ddod atom. Mae gwrando yn elfen hollbwysig mewn gweddi. Gwrando ar Dduw yn siarad â ni.

### **Myfyrdod pellach:**

Fyddwch chi yn eich gweddïau personol yn cael cyfnodau tawel i wrando?

Pa mor aml fydd eich cynulleidfa yn gwrando ar Dduw?